

# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 40  
04/01/21

## Iesu ifanc yn y Deml

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref  
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.  
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



### Paratowyd y pecyn hwn gan:

Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,  
Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru  
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes,  
Greg Leavers a Gwyn Rhydderch

An English  
version  
is also  
available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag [Ahughes@saintygymuned.org](mailto:Ahughes@saintygymuned.org)

# Stori



## Fersiwn Beibl.net

Byddai rhieni Iesu yn arfer mynd i Jerwsalem i ddathlu Gŵyl y Pasg bob blwyddyn, a phan oedd Iesu yn ddeuddeg oed aethon nhw yno i'r Wyl fel arfer. Pan oedd yr Wyl drosodd dyma'i rieni yn troi am adre, heb sylweddoli fod Iesu wedi aros yn Jerwsalem. Roedden nhw wedi teithio drwy'r dydd gan gymryd yn ganiataol ei fod gyda'i ffrindiau yn rhywle. Dyma nhw'n mynd ati i edrych amdano ymhlith eu ffrindiau a'u perthnasau, ond methu dod o hyd iddo. Felly dyma nhw'n mynd yn ôl i Jerwsalem i edrych amdano. Roedd hi'r trydydd diwrnod cyn iddyn nhw ddod o hyd iddo! Roedd wedi bod yn y deml, yn eistedd gyda'r athrawon ac yn gwranddo arny'n nhw ac yn gofyn cwestiynau. Roedd pawb welodd e yn rhyfeddu gymaint roedd yn ei ddeall. Cafodd ei rieni y fath sioc pan ddaethon nhw o hyd iddo, a dyma'i fam yn gofyn iddo, "Machgen i, pam wyt ti wedi gwneud hyn i ni? Mae dy dad a fi wedi bod yn poeni'n ofnadwy ac yn chwilio ym mhobman amdanat ti."



Gofynnodd Iesu iddyn nhw, "Pam roedd rhaid i chi chwilio? Wnaethoch chi ddim meddwl y byddwn i'n siŵr o fod yn nhŷ fy Nhad?" Ond doedd ei rieni ddim wir yn deall beth roedd yn ei olygu.

Felly aeth Iesu yn ôl i Nasareth gyda nhw a bu'n ufudd iddyn nhw. Roedd Mair yn cofio pob manylyn o beth ddigwyddodd, a beth gafodd ei ddweud. Tyfodd Iesu'n fachgen doeth a chryf. Roedd ffafr Duw arno, ac roedd pobl hefyd yn hoff iawn ohono.

Luc 2:41-52 Beibl.net

## Fersiwn syml

Pan oedd Iesu'n ddeuddeg oed aeth gyda Mair a Joseff i Jerwsalem i ddathlu Gŵyl y Pasg. Pan oedd yr Wyl drosodd cychwynnodd Mair a Joseff am adref gyda'u ffrindiau ac wrth gerdded am adref dyma nhw'n sylweddoli bod Iesu ddim gyda nhw. Aeth Mair a Joseff yn syth yn ôl i Jerwsalem i chwilio amdano. Fe fuon nhw'n chwilio ymhob man amdano ond doedd dim golwg ohono. O'r diwedd daethon nhw o hyd iddo yn y deml yn gwranddo ar yr athrawon. Dywedodd Mair wrtho, "Rydyn wedi bod yn chwilio amdanat ti ymhob man. Roedden ni'n poeni amdanat." Atebodd Iesu, "Pam oedd yn rhaid i chi chwilio? Rydw i wedi bod yn nhŷ fy Nhad yr holl amser". Aeth Iesu adref gyda'i rieni. Cofiodd Mair pob gair ddywedodd Iesu. Tyfodd Iesu'n fachgen doeth a chryf ac roedd pobl yn hoff iawn ohono.



# Cwestiynau i'w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda'ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Wyt ti wedi bod ar goll rhywdro? Am faint fuest ti ar goll?
2. Sut wyt ti'n meddwl oedd Mair a Joseff yn teimlo wrth iddyn nhw chwilio am Iesu am dri diwrnod?
3. Pam oedd pawb yn rhyfeddu at Iesu yn y deml?
4. Pwy fyddi di'n ei holi pan fyddi eisiau gwybod unrhyw beth?
5. Beth fuaset ti'n hoffi ei ofyn i Iesu?




## Gweddi fer

O Dduw, rwyf Ti'n gwybod bob dim ac yn deall bob dim.  
Diolch i Ti fod Iesu wedi dod i'r byd er mwyn i ni gael dy  
adnabod Di.  
Amen.



## Pan oedd Iesu'n ddeuddeg oed

www.lambsongs.co.nz    Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams)    Lluniau: Richard Gunther



Pob blwyddyn adeg y Pasg byddai Joseff y saer yn mynd â'i deulu i'r Deml yn Jerwsalem. Roedd hon yn flwyddyn arbennig oherwydd, yn ddeuddeg oed, roedd Iesu'n ddigon hen i eistedd gyda'r dynion.




Pan oedd Iesu'n ddeuddeg oed aeth gyda Joseff a Mair i'r Deml yn Jerwsalem i ddathlu gwyl y Pasg.



Roedd yn gyfle arbennig i ddiolch i Dduw. Cerddodd Iesu gyda'i deulu a'i ffrindiau. Roedd o wrth ei fodd yn mynd i'r Deml.



Wedi'r dathliad byddai pawb yn cerdded am adref gyda'i gilydd. Ond y diwrnod canlynol ni allai Joseff a Mair ddod o hyd i Iesu. Fe frysion nhw'n ôl i Jerwsalem i chwilio amdano.



Roedd Iesu wedi mynd yn ôl i'r Deml, ar ei ben ei hun er mwyn cael gwrandao ar y dynion doeth a'r athrawon yn darllen ac yn trafod geiriau Duw.



Siaradodd Iesu â'r athrawon. Roedden nhw'n synnu ei fod yn gwybod cymaint am Dduw ond doedden nhw ddim yn gwybod mai Mab Duw oedd o!



O'r diwedd daeth Mair a Joseff o hyd iddo yn siarad gyda'r offeiriaid a'r athrawon yn y deml. "Roedden ni'n meddwl dy fod ti ar goll," meddai Mair. "Rydw i yma yn nhŷ fy Nhadau," atebodd Iesu hi.



Aeth Iesu adref ar ei union gyda nhw. Wnaeth Mair fyth anghofio cymaint yr oedd Iesu'n caru Gair Duw, hyd yn oed pan oedd yn fachgen.



Fideo o'r stori  
<https://youtu.be/ztJkjsshBs>

# Dolenni

Fideo o gân yr wythnos  
<https://youtu.be/atlCbky6eg>

Boed i Dduw fod yn raslon  
a dangos ei ffafr  
gan roi ei hedd i ti,  
yn enw Crist,  
Amen.



Cartŵn o'r stori (Saesneg)  
[https://www.youtube.com/watch?v=ho\\_3gviWzbw&t=120s](https://www.youtube.com/watch?v=ho_3gviWzbw&t=120s)



## Gemau


### Giatiau'r Deml

#### Bydd angen:

- Darnau lego neu flociau
- Pêl tenis bwrdd
- Gwelltyn
- Amserydd

#### Sut i chwarae:

- Defnyddia'r lego neu'r blociau i adeiladu tair giât.
- Gosoda'r giatiau ar fwrdd.
- Pa mor gyflym fedr pob chwaraewr chwythu'r bêl trwy bob giât gan defnyddio'r gwelltyn?
- Yr enillydd ydy'r un sy'n llwyddo i chwythu'r bêl trwy bob giât yn yr amser byrraf.



### Marbllys

#### Byddi angen:

Crea ddrysfa marbllys gan ddefnyddio gwellt(straws) neu lanhawyr pibell mewn bocs. (gweler y llun)

#### Sut i chwarae:

Rho farblen ar gychwyn y ddrysfa ac yna symuda'r bocs er mwyn gwneud l'r farblen deithio i'r diwedd. Yna symuda'r farblen o'r diwedd i gychwyn y ddrysfa i gynrychioli Iesu'n mynd i'r Deml ac oddi yno.



### Gêm cuddio'r Iesu

**Byddi angen:** Person o Lego neu Playmobil ac amserydd


#### Sut i chwarae:

Cuddia person Lego neu Playmobil yn unrhyw le yn y tŷ. Pwy tybed, ddaw o hyd iddo gyflymaf?





Fedri di helpu Mair a Joseff i ddod o hyd i Iesu yn Jerwsalem?



Mae rhywun wedi cymysgu llythrennau'r geiriau yn yr adnod. Fedri di eu rhoi yn y drefn gywir?

**noddogfyn eusl ynddi hnw, "maP erddo hirad i ich**

**icholiw? aWthochen hic midd ddwmel y bwnydd n'i**

**riw's o dof ny yhn yf daNh?" uLc 2 nadod 49**

CWESTIYNAU, DEML, FFRINDIAU, GWRANDO, JERWSALEM, NASARETH, PERTHNASAU, RHINI, RHYFEDDU

## Geiriau cudd

Mae yna eiriau cudd yng nghanol y llythrennau.

Yn y bocsg gwag mae llythyren ar goll o'r gair.

Rho'r llythyren gywir yn y bocsg.

|    |    |    |    |    |    |    |    |  |   |    |    |    |    |    |   |
|----|----|----|----|----|----|----|----|--|---|----|----|----|----|----|---|
| J  | E  | R  | W  | S  | A  | L  | E  |  | A | LL | TH | A  | L  | FF | R |
| O  | H  | S  | CH | U  | FF | A  | D  |  | M | L  | O  | M  | H  | PH | I |
| P  | E  | R  | G  | B  | Y  | N  | A  |  | A | R  | E  | TH | FF | U  | T |
| O  | P  | E  | FF | C  | CH | A  | T  |  | I | TH | I  | O  | T  | A  | C |
| G  | F  | E  | C  | T  | G  | FF | R  |  | N | D  | I  | A  | U  | FF | B |
| A  | S  | RH | N  | L  | G  | W  | R  |  | N | D  | O  | U  | TH | C  | D |
| DD | R  | C  | E  | RH | I  | E  | N  |  | W | NG | D  | A  | N  | E  | S |
| B  | O  | TH | U  | RH | W  | F  | P  |  | R | TH | N  | A  | S  | A  | U |
| P  | TH | I  | N  | NG | C  | W  | E  |  | T | I  | Y  | N  | A  | U  | W |
| A  | N  | T  | RH | Y  | F  | E  | DD |  | G | R  | E  | G  | I  | D  | M |



# Sialensau

## Ar daith


Roedd Iesu a Mair a Joseff wedi cerdded yn bell iawn o Nasareth i Jerwsalem.  
Fedri di wneud i'r traed symud?

### Byddi angen:

- Rholyn o dâp gludiog
- Gwelltyn
- 2 siâp troed wedi eu torri allan o gerdyn

### Beth i'w wneud:

- Torra 2 siâp troed allan o gerdyn
- Torra'r gwelltyn yn ei hanner. Rho un pen iddo'n sownd yn y rholyn ( â thamaid o dâp gludiog) a rho droed yn sownd yn y pen arall.
- Gwna'r un fath â'r hanner gwelltyn a'r droed arall.
- Gwthia'r rholyn i weld os ydy'r traed yn symud!



## Dysgu rhywbeth newydd

Beth am ofyn i rywun dy helpu i ddysgu i wneud rhywbeth newydd  
wythnos hon? Efallai buaset yn gallu dysgu gwneud bisgedi,  
chwibanu cân neu sut i wneud tric cardiau.



### Sialens Lego

Gwna fodel o'r stori gan  
ddefnyddio Lego yna postia lun  
ohono ar Whatsapp neu  
dudalen facebook dy Ysgol  
Sul/grŵp CIC.



Mae lluniau silwét  
o Iesu ifanc wedi'u  
cuddio trwy'r  
pecyn hwn.  
Sawl un fedri di  
ddod o hyd iddo?



D G P H R N W A B O C E A H R N P W G T D S L F O R N W A E C D F L S P B T

# Chwilair

|   |    |   |    |   |    |    |   |   |    |    |   |
|---|----|---|----|---|----|----|---|---|----|----|---|
| C | I  | D | I  | R | T  | D  | E | U | DD | E  | G |
| W | E  | G | O  | S | D  | U  | A | E | I  | CH | W |
| E | I  | S | T  | E | DD | A  | M | E | DD | W  | L |
| S | S  | A | I  | E | TH | S  | I | O | C  | I  | M |
| T | U  | P | F  | D | E  | S  | D | N | U  | L  | E |
| I | E  | Y | S  | O | U  | N  | U | S | E  | I  | T |
| Y | RH | I | E  | N | A  | TH | R | A | W  | O  | N |
| N | A  | S | A  | R | E  | TH | S | D | U  | L  | P |
| A | D  | U | W  | W | I  | E  | M | A | B  | Y  | S |
| U | R  | G | O  | I | TH | I  | E | T | M  | W  | E |
| D | E  | A | LL | D | RH | I  | E | N | I  | G  | I |
| U | M  | A | M  | E | L  | A  | S | W | R  | E  | J |

R N W A E C D F L S P B T

|                                                                                                                                |                                                                                                                       |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| ADRE<br>ATHRAWON<br>CWESTIYNAU<br>CHWILIO<br>DEALL<br>DEUDDEG<br>DIWRNOD<br>DOETH<br>DUW<br>EISTEDD<br>GWRANDO<br>GŴYL<br>IESU | MAM<br>MEDDWL<br>NASARETH<br>JERWSALEM<br>PASG<br>POENI<br>RHINI<br>RHYFEDDU<br>SIOC<br>TAD<br>TEITHIO<br>TEML<br>TRI |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

Pan oedd Iesu yn y Deml, roedd athrawon y Gyfraith a'r offeiriaid wedi rhyfeddu at yr hyn a ddeallai am Dduw- doedden nhw ddim wedi disgwyl y fath ddealltwriaeth gan fachgen o'i oed o. Mae'r rysait myffins hwn yn ymddangos yn hollol blaen a chyffredin ar y tu allan ond mae yna rywbeth hollol annisgwyl oddi mewn iddynt!

## Rysait

### Cynhwysion:

- 200g/ 7 owns o flawd codi
- 100g/3 ½ owns o siwgr caster euraidd
- 1 wy mawr
- 75ml/3 owns hylifol o olew blodyn haul
- 150ml/5 owns hylifol o lefrith
- ½ llwy de o rinflas fanila
- 60ml/12 llwy de o geuled lemon neu farmaled



### Dull:

1. Cynhesa'r popty i dymheredd o 190 gradd canradd/375 gradd Fahrenheit/ Nwy 5 a leinia dun myffins â chasys papur myffins.
2. Rhidylla'r blawd i bowlen a'i gymysgu â'r siwgr.
3. Cymysga'r wy, yr olew blodyn haul a'r rhinflas fanila â'i gilydd yn y bowlen.
4. Gwna bant yn y gymysgedd o flawd a siwgr ac ychwanega ychydig o'r gymysgedd hylifol (mae'n haws i gael y cynhwysion sych a gwlyb i gymysgu'n iawn drwy roi ychydig o hylif ar y tro) yng nghanol y pant a chymysga'r cyfan â'i gilydd. Dal ati i ychwanegu'r gymysgedd hylifol â'r gymysgedd sych i wneud cyteu myffins ac ychwanega ychydig o sudd lemon.
5. Llenwa'r casys papur myffins yn hanner llawn â'r cyteu ac yna rho lond llwy de o geuled lemon ar ben pob un ohonynt ac yna rho ychydig mwy o gyteu ar ben y ceuled.
6. Rho'r tuniau myffins yn y popty poeth ar y silff ganol a gofala nad wyt yn clepian drws y popty. Poba'r myffins am tua 10 i 15 munud.



# Gweddi Greadigol

## Sgrôl weddi


Roedd Iesu'n holi llawer o gwestiynau i'r athrawon yn y Deml.  
Tybed beth fuaset ti'n hoffi ei ofyn i Dduw?

### Bydd angen:

- 2 lanhawr cotwm ('cotton bud')
- Darn o bapur tua 10cm o hyd a 4cm o led
- Glud

### Beth i'w wneud:

- Rho ychydig o lud ar hyd un ymyl i'r papur (yr ochr fer)
- Rholia'r papur o gwmpas y glanhawr cotwm nes eu bod yn sownd yn ei gilydd.
- Gwna'r un fath y pen arall i'r papur.
- Meddylia am rywbeth y buaset ti'n hoffi ei ofyn i Dduw.
- Ysgrifenna dy gwestiwn ar ganol y papur.
- Rholia'r ddau lanhawr at ei gilydd nes eu bod yn cyfarfod a'r sgrôl wedi cau.



## Canu

### Numeri 6:24-26

Boed i Dduw dy fendithio,  
boed i Dduw dy gadw,  
A gwenu arnat ti,  
Boed i Dduw fod yn raslon,  
a dangos ei ffafr,  
Gan roi ei hedd i ti.

Yr hedd sy'n dod â'i gariad yn agos  
A gyrru ofn yn bell,  
A rhoi llonyddwch pur i ni,  
Felly canwn ni:



Boed i Dduw dy fendithio,  
boed i Dduw dy gadw,  
A gwenu arnat ti,  
Boed i Dduw fod yn raslon,  
a dangos ei ffafr,  
Gan roi ei hedd i ti.  
Yn enw Crist, Amen.

Hawlfraint © 2018 Greg Leavers Cyf. Cass Meurig

Gwylwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar <https://youtu.be/atlCbky6eg>

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - [ahughes@saintygymuned.org](mailto:ahughes@saintygymuned.org)